

### **Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi**

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 14:30 ar 25 Gorffennaf yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

### **Y Gweinidog a oedd yn bresennol**

Carwyn Jones AC	Y Prif Weinidog
-----------------	-----------------

### **Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol**

Alex Bevan	TUC Cymru
Paul Byard	Cadeirydd Commerce Cymru
Ben Cottam	Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Heather Eason	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Robert Lloyd Griffiths	Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Lowri Morgan	Cymdeithas y Cyfreithwyr
Martin Mansfield	TUC Cymru
David Morgan	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Elgan Morgan	Siambwr Fasnach De Cymru
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Martin Warren	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Ifan Glyn	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Mark Harris	Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Nick Ireland	TUC Cymru
Emma Watkins	Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain
Leighton Jenkins	Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain
Mike Jenkins	TUC Cymru
Lloyd Powell	Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

### **Ymddiheuriadau**

Ken Skates AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Alun Cairns AS	Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Ian Gallagher	Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Julie-Ann Haines	Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi
Mark Judd	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Nigel Keane	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru

### **Cynghorwyr arbennig a swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol**

Syr Derek Jones	Yr Ysgrifennydd Parhaol
Tracey Burke	
Des Clifford	
Paul Harrington	
Andrew Jeffreys	
Darryn Lewis	
Toby Mason	
Andrew Mathias	
Huw Morris	
Mick McGuire	
Damien O'Brien	

James Price	
Jonathan Price	
Marion Stapleton	
Huw Griffiths	Cofnodwr
Julian Carpanini	Cofnodwr

## 1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

- 1.1 Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau i gyfarfod a drefnwyd yn arbennig ar gyfer y Cyngor er mwyn trafod canlyniad y refferendwm ynghylch yr UE. Nododd y Prif Weinidog y prif eitemau ar yr agenda.
- 1.2 Gwnaeth y Prif Weinidog sylwadau ar effaith y canlyniad ar fyd busnes a phobl sy'n gweithio, yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr sydd ohoni. Dywedodd mai rôl y Llywodraeth yw cynnig sefydlogrwydd a gwarchod buddiannau Cymru. Dywedodd ei bod yn bwysig ei fod yn clywed barn aelodau'r Cyngor.
- 1.3 Nododd y Prif Weinidog fod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn ymddiheuro am fetu â bod yn bresennol yn y cyfarfod. Yna, cyflwynodd y ddwy brif eitem ynghyd â phapurau a oedd i'w nodi.
- 1.4 Roedd y papur cyntaf yn egluro safbwynt Llywodraeth Cymru. Roedd yr ail bapur yn egluro safbwyntiau (a) TUC Cymru a (b) Cydffederasiwn Diwydiant Prydain - Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Sefydliad y Cyfarwyddwyr.
- 1.5 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cyngor nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol na Gweinidogion eraill Swyddfa Cymru yn medru mynychu'r cyfarfod. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ysgrifennu at y Cyngor i ymddiheuro ac i fynegi ei feddyliau cyntaf ynghylch yr heriau y byddai gadael yr UE yn eu hachosi. Roedd y llythyr wedi'i ddsbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.

## 2. Safbwynt Llywodraeth Cymru

- 2.1 Eglurodd y Prif Weinidog safbwynt Llywodraeth Cymru ac esboniodd rai o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynnal hyder byd busnes. Nododd y Prif Weinidog fod ei Ddatganiad Llafar i Gyfarfod Llawn o'r Cynulliad yn dilyn y refferendwm ynghylch yr UE wedi'i ddsbarthu.
- 2.2 Ychwanegodd fod y canlyniad wedi creu llawer o ansicrwydd oherwydd diffyg eglurder ynghylch beth y byddai'r bwriad i adael yr UE yn ei olygu'n ymarferol. Nododd y Prif Weinidog chwe maes gweithredu sy'n flaenoriaeth:-
  - a) Diogelu swyddi
  - b) Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnwys yn llawn mewn trafodaethau ynghylch proses y DU ar gyfer gadael yr UE
  - c) Sicrhau bod mynediad i'r Farchnad Sengl er mwyn cael nwyddau a gwasanaethau'n parhau
  - ch) Diogelu cyllid a gyllidebwyd dan raglenni'r UE tan 2020
  - d) Cynnal adolygiad hirdymor o'r Grant Bloc gan Lywodraeth y DU

dd) Perthynas newydd rhwng llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU yn y cyfnod yn dilyn Brexit.

- 2.3 Dywedodd y Prif Weinidog fod rhai meysydd lle nad oedd gan y DU unrhyw awdurdodaeth / cyfrifoldeb rhanbarthol oherwydd bod y meysydd dan sylw wedi'u datganoli, a nododd fod amaethyddiaeth a physgota'n enghreifftiau o feysydd o'r fath. Cymru oedd yn gyfrifol am y meysydd hynny, ond gan mai'r DU yw'r aelod-wladwriaeth mae ar Gymru angen i'r DU gynrychioli ei buddiannau. Dywedodd y bydd angen cadarnhad gan y pedair Llywodraeth ar gyfer meysydd datganoledig.
- 2.4 Soniodd y Prif Weinidog ei fod wedi croesawu cyfarfod o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn ddiweddar. Dywedodd wrth y Cyngor ei fod yn gyfarfod da lle'r oedd wedi nodi safbwynt Cymru yn glir. Un pwynt trafod oedd y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Yn ogystal, roedd Gweinidogion Cyllid wedi cyfarfod ac wedi trafod goblygiadau'r refferendwm. Soniodd am yr adnodd yn Swyddfa Brwsel ac y byddai grŵp cynghori'n cael ei sefydlu a fyddai'n manteisio ar brofiad yng Nghymru. Roedd y Prif Weinidog hefyd wedi sefydlu tîm bach o uwch-swyddogion.
- 2.5 Gwahoddodd y Prif Weinidog gwestiynau a gofynnodd Robert Lloyd Griffiths pwy fyddai'n arwain y trefniadau hyn. Ymatebodd y Prif Weinidog gan ddweud mai fe fyddai'n arwain y trefniadau gan ofyn am gymorth pobl brofiadol fel y bo angen.
- 2.6 Dywedodd y Prif Weinidog fod busnes yn mynd rhagddo fel arfer yng Nghymru a bod camau'n cael eu cymryd i gynorthwyo'r economi. Yna, gwahoddodd y Prif Weinidog gwestiynau ynghylch yr hyn yr oedd wedi'i ddweud mor belled.
- 2.7 Gwnaeth Ben Cottam sylwadau ynghylch pwysigrwydd y rhyngwyneb â byd busnes er mwyn sicrhau bod sefydliadau busnes yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol ynglŷn â'r agenda ynghylch yr UE. Cytunodd y Prif Weinidog gan ddweud y byddai angen i waith ymgysylltu ymestyn y tu hwnt i'r Cyngor.
- 2.8 Esboniodd y Prif Weinidog mai'r hyn y byddai'n mynnu ei gael yw mynediad dirwystr i'r Farchnad Sengl. Dywedodd David Morgan y gallai staff ei sefydliad ym Mrwsel gynnig cymorth. Roedd Emma Watkins yn cytuno bod mynediad dirwystr i'r Farchnad Sengl yn bwysig a rhoddodd enghraifft o gwmni a oedd yn ymwneud â Horizon 2020.
- 2.9 Dywedodd Martin Warren fod perygl y byddai'r sector prifysgolion yn gorffen bod ar flaen y gad o safbwynt datblygu cynnyrch, pe bai gadael yr UE yn effeithio ar gyllid.
- 2.10 Dywedodd y Prif Weinidog fod llawer o ansicrwydd ar hyn o bryd ac y gallai gymryd rhywfaint o amser i bethau ddod yn gliriach.

- 2.11 Holodd Martin Mansfield ynghylch y grŵp cynghori gan ddweud bod angen i bartneriaid cymdeithasol ddod ynghyd mewn uwchgynhadledd Gymreig ynglŷn â'r mater ac y gallai'r TUC helpu i gyflwyno cynllun cenedlaethol i Gymru. Dywedodd y Prif Weinidog y dylai Cymru fod o gwmpas y bwrdd trafod er mwyn sicrhau ein bod yn cymeradwyo'r hyn y cynigir ei weithredu ar gyfer Cymru. Dywedodd y Prif Weinidog fod yn well ganddo gael y Cyngor am y tro, yn hytrach nag uwchgynhadledd. Eglurodd Martin Mansfield ei fod am gael cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau lle gellir rhannu profiad y mudiad undebau llafur, beth bynnag fo'r dull ymgynnull a gaiff ei fabwysiadu.
- 2.12 Cyfeiriodd Derek Walker at ddatganiad y Prif Weinidog ar 28 Mehefin, ac yn benodol at y rhan ynghylch cydlyniant cymdeithasol a'r farn ynghylch cymunedau a gaiff eu gadael ar ôl. Holodd ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru.
- 2.13 Dywedodd y Prif Weinidog fod pobl wedi pleidleisio am amryw resymau ac ychwanegodd nad yw pobl yn teimlo mor ddiogel â'u cyndeidiau a bod hynny wedi'i adlewyrchu yng nghanlyniad y refferendwm.

### 3. Hyder byd busnes

- 3.1 Symudodd y Prif Weinidog ymlaen i'r eitem nesaf ar yr agenda, sef hyder byd busnes. Dywedodd fod gan Gymru enw da ym maes busnes a bod angen cynnal yr enw da hwnnw. Dywedodd ei fod ef ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi bod yn gweithio gyda busnesau a mewnfuddsoddwyr i roi sicrwydd iddynt.
- 3.2 Pwysleisiodd y Prif Weinidog fod angen i ni hyrwyddo'n weithredol y neges bod busnes yn mynd rhagddo fel arfer yng Nghymru, er mwyn sefydlogi'r economi yn y cyfnod ansicr sydd ohoni. Mae ei neges i fyd busnes yn glir – parhewch i fuddsoddi oherwydd mae Cymru yn lle gwych i gyflawni busnes ynddo.
- 3.3 Dywedodd y Prif Weinidog fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi llunio cynllun i hybu hyder byd busnes a bod y cynllun yn cael ei gyhoeddi heddiw. Bydd y cynllun yn cynnwys y canlynol:-
- a) Cronfa Twf a Ffyniant ar gyfer busnesau bach a chanolig er mwyn cynorthwyo prosiectau busnes y mae swyddi, twf a buddsoddi'n ganolog iddynt;
  - b) Cynllun rhagweithiol i hybu allforion;
  - c) Negeseuon hybu busnes trwy blatfformau cyfathrebu;
  - ch) Rhaglen o ymgysylltu â busnesau;
  - d) Cynlluniau i lansio rhaglen brentisiaethau i bobl o bob oed;
  - dd) Datblygu seilwaith. Ymhelaethodd y Prif Weinidog ar hynny gan ddweud bod y cynigion ynghylch y Metro yn parhau ond na fyddai maint a chyflymder presennol y cynllun efallai'n bosibl os na chawn ni'r penderfyniad cywir ynghylch cyllid yr UE;
  - e) Lleihau rhwystrau i gyflenwyr a busnesau bach a chanolig yng Nghymru;
  - f) Ymgyrch yn ystod yr hydref i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer busnesau newydd, twf a buddsoddi;

- ff) Cynorthwyo busnesau twristiaeth. Defnyddiodd y Prif Weinidog lwyddiant Cymru ym maes pêl-droed ar lefel Ewropeaidd fel enghraifft, a oedd wedi rhoi cyfle i hybu delwedd Cymru, sy'n hanfodol i fyd busnes wrth i ni symud ymlaen;
- g) Datblygu cynlluniau cystadleurwydd ar draws y Llywodraeth.
- 3.4 Dywedodd y Prif Weinidog fod gennym gynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith a bod cynnal hyder byd busnes yn ategu ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru. Yna, gofynnodd i aelodau'r Cyngor:-
- Beth yw eu barn nhw am hyder byd busnes?
  - Beth y mae ar gwmnïau ei angen?
  - Beth y gall y Llywodraeth ei wneud?
- 3.5 Dywedodd Ben Cottam fod yn rhaid sicrhau hyder byd busnes a bod angen i negeseuon allweddol gael eu hatgyfnerthu. Byddai'n hoffi rhagor o fanylion ynglŷn â dwysáu twristiaeth ac annog allforion. Bydd y bunt wan yn cryfhau unwaith eto, felly budd byrdymor yn unig sydd i'w gael o wendid y bunt ar hyn o bryd. Dywedodd fod rhai busnesau'n gweld cyfleoedd ond bod y llif gwybodaeth i fusnesau bach a chanolig yn bwysig, ee drwy gyfrwng Busnes Cymru. Awgrymodd y gallai'r tîm 'Brexit' gyfeirio busnesau at fannau priodol er mwyn iddynt allu manteisio ar gyfleoedd.
- 3.6 Dywedodd James Price fod gwaith ymgysylltu â chwmnïau'n digwydd ynghylch yr agwedd Ewropeaidd ac y byddai'n darparu nodyn i esbonio beth sy'n cael ei wneud.
- 3.7 Dywedodd Paul Byard fod lefel bresennol hyder byd busnes i'w gweld yn y ffaith bod allforion a gwaith recriwtio wedi arafu. I adfer hyder byd busnes yng Nghymru, gallai cymeradwyo Morlyn Bae Abertawe roi Cymru ar y map a hybu swyddi a thwf. Gallai sicrhau bod prosiect y Morlyn yn cyd-fynd, er enghraifft, â chronfeydd Ewropeaidd a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fynd i'r afael â llawer o faterion gyda'i gilydd. Gallai arloesi ym maes ynni'r llanw ddangos i weddill y byd bod busnes yn mynd rhagddo fel arfer yng Nghymru.
- 3.8 Mynegodd David Morgan ei gefnogaeth i'r morlyn llanw, a oedd yn un o brif elfennau cais maniffesto ei sefydliad i bob plaid. Pan oedd yn y Sioe Frenhinol dywedodd iddo glywed busnesau'n gofyn droeon am 'sicrwydd', felly mae'n bwysig cymryd camau i gael sicrwydd cyn gynted ag sy'n bosibl.
- 3.9 O ran y pwynt ynglŷn â'r Morlyn, atebodd y Prif Weinidog gan ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU i wneud penderfyniad yn ei gylch ers tipyn o amser.
- 3.10 Dywedodd Paul Byard y ceisir, yng nghyd-destun ehangach polisi ynni'r DU, sicrhau pob mantais bosibl o seilwaith niwclear newydd. Dywedodd y Prif Weinidog mai ein polisi buddsoddi ar gyfer seilwaith ynni yn y DU yw ildio i fuddsoddwyr tramor.

- 3.11 Holodd Paul Byard a oedd gan Gymru y capasiti a'r gallu sy'n angenrheidiol ar gyfer y Morlyn. Dywedodd fod prosiect y Morlyn yn mynd i'r afael â llawer o ddyheadau ac y byddai'n cael effaith lluosydd gadarnhaol ar yr economi. Mae'n bwysig cael y morlyn cyntaf yn iawn oherwydd byddai'n gysail defnyddiol ar gyfer morlynnoedd a fyddai'n dilyn.
- 3.12 Dywedodd David Morgan fod y ffaith na fyddai'r Comisiwn yn ymgysylltu mwyach yn ei gwneud yn anodd symud materion yn eu blaen.
- 3.13 Dywedodd Emma Watkins nad yw lefel hyder byd busnes ac effeithiau Brexit wedi dod i'r amlwg yn llawn eto. Mae rhai cyflenwyr yn cynyddu costau dros nos ac mae rhai'n gofyn am gael symud eu pencadlysoedd o'r DU. Dywedodd nad yw rhai cwmnïau'n buddsoddi yn y DU a chroesawodd y Cynllun Hyder Busnes. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio ar strategaeth ddiwydiannol ac yn datblygu masnach drwy Masnach a Buddsoddi'r DU. Awgrymodd fod angen i adrannau Llywodraeth Cymru gydweithio i sicrhau nad yw gwaith adrannol yn gwrthdaro â'r ymgyrch ehangach i wella economi Cymru. Mae mynediad effeithiol i'r Farchnad Sengl yn bwysig.
- 3.14 Roedd Martin Mansfield yn croesawu unrhyw ymgysylltu i gadw busnes yng Nghymru. Nododd ei bryderon ynghylch hyder byd busnes, yn enwedig pe bai'r broses o adael yr UE yn arwain at ddirywiad economaidd. Byddai colli cyllid yr UE, pe bai hynny'n digwydd, yn effeithio ar gyllid Llywodraeth Cymru. Dyna pam yr oedd yn galw am ddull Llywodraeth gyfan o weithredu er mwyn blaenoriaethu ymyriadau a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar yr economi. Dylai'r dull gweithredu ganolbwyntio ar y Cymoedd, y Metro a phobl ddifreintiedig. Yr hyn y mae gan y TUC ddiddordeb ynddo yw strategaeth ar gyfer economi Cymru er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n flaenoriaeth.
- 3.15 Dywedodd y Prif Weinidog fod cysylltedd a sgiliau'n bwysig. Mae unrhyw beth sy'n lleihau'r ymdeimlad o bellter, megis band eang, yn dda i Gymru. Mae cwmnïau'n ei holi ynghylch y sgiliau y mae arnynt eu hangen – mae cwmnïau'n dod i ardal os ydynt yn credu y gallant gael pobl sydd â'r sgiliau priodol. Mae angen i ni fod yn graff wrth ddenu cwmnïau ac mae ein polisi sgiliau'n un ffordd o wneud hynny.
- 3.16 Awgrymodd Martin Mansfield fod cysylltu unigolion â swyddi a methiant y farchnad yn faes lle gall y Llywodraeth ymyrryd yn uniongyrchol. Cyfeiriodd Martin Mansfield at ddull gweithredu'r ymgyrch Swyddi Gwell yn nes at Adref, a chaffael swyddi drwy gontractau'r Llywodraeth.
- 3.17 Pe bai'n dod i'r amlwg bod canlyniad y refferendwm ynghylch yr UE yn golygu mwy o hyblygrwydd ynghylch caffael, dywedodd y Prif Weinidog y gallai hynny esgor ar gyfleoedd.
- 3.18 Dywedodd Robert Lloyd Griffiths fod ei aelodau'n gohirio penderfyniadau ynghylch buddsoddi, yn sôn am achosion o golli contractau ac yn ystyried symud eu gweithrediadau. Roedd wedi'i galonogi gan y newyddion am grŵp y Prif Weinidog, gyda James Price yn swyddog arweiniol yn y tîm. Awgrymodd Robert Lloyd Griffiths y dylai gwrdd â James yn ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd

Strategol Busnes Cymru i drafod sut y gallai Busnes Cymru ddsbarthu gwybodaeth a chynorthwyo busnesau yng nghyswllt yr ystod eang o bryderon a chyfleoedd.

- 3.19 Cododd Elgan Morgan y pwynt ynghylch pa gwmnïau fyddai'n cymryd lle unrhyw fusnesau a allai adael. Cyfeiriodd at y Gronfa Twf a Ffyniant ac at ddisgwyliadau busnesau a gofynnodd am yr amserlen ar gyfer cael rhagor o wybodaeth. Ymatebodd y Prif Weinidog gan ddweud y byddai manylion ar gael yn ddiweddarach. Ychwanegodd Tracey Burke mai'r gobaith oedd y byddai'r wybodaeth ar gael yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.
- 3.20 Roedd Derek Walker yn gwybod am enghreifftiau lle'r oedd busnesau mawr yn gwasgu cyflenwyr a lle'r oedd banciau'n ei gwneud yn anos i fusnesau yn ei sector ef gael gafael ar gyllid. Roedd yn croesawu'r gronfa os oedd ar agor i'w sector ef, a dywedodd y gellid gwneud gwaith i gynyddu cyfleoedd sy'n ymwneud â chontractau'r sector cyhoeddus. Mae ei sector ef yn dibynnu ar gronfeydd Ewropeaidd, felly mae'r adnodd hwn yn hollbwysig gan nad yw banciau bob amser yn deall modelau ariannu cymdeithasol.
- 3.21 Awgrymodd Ben Cottam y gellid monitro dangosyddion economaidd yn well fel ein bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Fel arall mae angen cael gafael ar dystiolaeth mewn ffyrdd amgen, er enghraifft drwy ofyn i'r sawl sy'n ymwneud â lletygarwch am eu profiadau, er mwyn asesu'r sefyllfa.
- 3.22 Dywedodd Martin Warren fod rhai o'i aelodau yn gwneud penderfyniadau negyddol. Dywedodd mai'r hwyaf y bydd yn cymryd i weithredu Erthygl 50, y mwyaf o niwed a fydd yn cael ei achosi i fusnes.
- 3.23 Roedd Jonathan Price o'r farn bod ansicrwydd am gyfnod maith yn andwyol i'r economi, gan ei fod yn gallu arwain at ohirio penderfyniadau ynghylch buddsoddi. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd gennym yn anecdotaidd ac mae'n ddefnyddiol clywed profiadau'r cynrychiolwyr heddiw. Ceir rhywfaint o dystiolaeth systemig megis y Mynegai Rheolwyr Prynu. Mae data'r DU yn dangos tueddiadau negyddol ar ôl y refferendwm, a fydd yn cael eu hadlewyrchu drwy Gynnyrch Domestig Gros yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Mae arolwg o hyder a gynhaliwyd gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain yn y DU yn debyg. Pe bai'r rhain yn cael eu hystyried unwaith eto yn nes ymlaen y mis hwn, byddai'r canlyniad yn debyg.
- 3.24 Dywedodd David Morgan fod gan ddau o aelodau mwyaf yr UE etholiadau'r flwyddyn nesaf, a bod yn rhaid cadw hynny mewn cof yn ystod trafodaethau.

#### **4. Papur y TUC**

- 4.1 Aeth y Prif Weinidog yn ei flaen i ymdrin â phapur y TUC.
- 4.2 Dywedodd Martin Mansfield wrth y Cyngor fod problemau strwythurol yn y Cymoedd ac mewn ardaloedd eraill, oherwydd bod diwydiant blaenorol wedi'i golli yno. Gallai Brexit waethygu problemau yn yr ardaloedd hynny. Dywedodd fod angen ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol wrth weithredu. Dylai

ymyriadau llywodraeth ganolbwyntio ar gyflwyno a chyflawni canlyniadau yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Awgrymodd y dylai'r Llywodraeth ymgysylltu â chwmnïau yn yr ardaloedd hynny a cheisio sicrhau'r canlyniadau gorau yng nghyswllt buddsoddiadau.

- 4.3 Dywedodd y Prif Weinidog mai rhan o broses y gyllideb yw blaenoriaethu. Gallai Brexit gostio tri y cant o'r gyllideb i Gymru. Bydd rhai rhaglenni'n parhau ac mae'n bosibl y bydd rhai eraill yn parhau ar gyflymder gwahanol. Soniodd fod ar y Cymoedd angen cysylltiadau gwell. Yn ei farn ef, roedd rhai rhannau o'r Cymoedd yn gwneud yn dda, megis Merthyr a rhannau deheuol y Cymoedd. Roedd rhai rhannau'n ganolfannau creu swyddi, a chyfeiriodd unwaith eto at Ferthyr fel enghraifft. Mae gweithgynhyrchu'n bwysig, a dyna pam yr ydym yn gweithio gyda TATA. O safbwynt caffael, mae'n bwysig rhannu'r uchelgeisiau o ran polisi drwy gadwynau cyflenwi a'u rhannu ag isgontractwyr, megis yr uchelgais sy'n ymwneud â thalu'r isafswm cyflog. Gwnaeth sylwadau ynghylch strwythur cyflawni, gan ychwanegu bod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn edrych ar grwpiau cynghori gyda'r bwriad o'u had-drefnu. Dywedodd y Prif Weinidog fod angen i ni sicrhau mai'r sgiliau sydd gan bobl yw'r union sgiliau y mae eu hangen ar gyflogwyr.
- 4.4 Gofynnodd Martin Mansfield am drafodaeth amser real i lywio'r gwaith o bennu blaenoriaethau. Mae gan y TUC ddi-ddordeb mewn canlyniadau. Pwysleisiodd yr angen am strwythur sy'n galluogi gwaith ymgysylltu parhaus â phartneriaid cymdeithasol.
- 4.5 Dywedodd y Prif Weinidog y gallai'r Gweithgor fod yn gyfrwng ar gyfer gwaith ymgysylltu amser real a chytunodd fod y Cyngor yn rhy fawr i weithredu mor fynych â hynny.

## **5. Papur ar y cyd gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Sefydliad y Cyfarwyddwyr**

- 5.1 Aeth y Prif Weinidog yn ei flaen i ymdrin â phapur a luniwyd ar y cyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain. Roedd y papur hwn yn datgan bod angen i sefydliadau busnes gydweithredu yng nghyswllt data a thrafodaeth amser real. Mae arweinyddiaeth yn thema gyffredin. Mae byd busnes yn disgwyl y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'i gilydd. Byddai uwchgynhadledd a drefnir ar y cyd ac sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, partneriaid cymdeithasol a'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodd i gael y bobl gywir o gwmpas y bwrdd i fynd drwy feysydd thematig. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud cyn y gall hynny ddigwydd.
- 5.2 Roedd y Cyngor o'r farn bod angen cydweithio i sicrhau dull gweithredu sy'n addas ar gyfer Brexit ac y gallai strategaeth economaidd ar gyfer Cymru ategu strategaeth ar gyfer y DU. Croesawyd agwedd y Prif Weinidog, sef bod busnes yn mynd rhagddo fel arfer yng Nghymru. Gwnaed sylw y byddai cael Aelodau'r Cynulliad yn rhannu'r neges honno â chwmnïau yn eu hetholaethau'n meithrin ymdeimlad o hyder a sefydlogrwydd er mwyn dangos yr hyn y mae Cymru yn gallu ei wneud.



- 5.3 Tynnodd y Cyngor sylw at bwysigrwydd ffordd liniaru'r M4 a bod byd busnes yn cytuno bod hon yn broblem y mae angen ei datrys. Bernir bod cyfarfodydd rheolaidd â'r Gweithgor yn ddefnyddiol.
- 5.4 Soniodd y Prif Weinidog am ansicrwydd cyfredol ynghylch strategaeth ddiwydiannol y DU. Mae TATA yn dangos pwysigrwydd cydweithio yng nghyswllt materion allweddol, hyd yn oed yn ystod ymgyrch etholiadol. O safbwynt amaethyddiaeth, arian yr UE yw wyth deg y cant o'i chyllideb.
- 5.5 Roedd Robert Lloyd Griffiths yn cytuno â'r hyn yr oedd y Prif Weinidog wedi'i ddweud, ac ychwanegodd y gallai'r uwchgynhadledd roi arwydd clir bod rhywbeth o bwys yn digwydd.
- 5.6 Dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn anodd gweld beth y gallai uwchgynhadledd ei gyflawni mor gynnar â hyn.

## **6. Agweddau yr oedd y Cyngor yn cytuno â nhw**

Gofynnodd y Prif Weinidog i'r aelodau a oedd unrhyw agweddau eraill i'w trafod. Cymerodd y Prif Weinidog fod y Cyngor yn cytuno â'r agweddau yr oedd wedi'u hamlinellu:-

- a) Rhannu'r neges bod busnes yn mynd rhagddo fel arfer yng Nghymru, a ategir gan strategaeth newydd ar gyfer yr economi;
- b) Gweithio ar y cyd i ddeall y goblygiadau a'r canlyniadau;
- c) Sicrhau bod Cymru yn cael ei chynnwys yn llawn yn y trafodaethau; a
- ch) Sicrhau mynediad parhaus, dirwystr i'r Farchnad Sengl.

## **7. Camau nesaf a champau gweithredu**

- 7.1 Trafododd y Prif Weinidog y camau nesaf a champau gweithredu.
- 7.2 Dyma'r camau nesaf:-
  - a) Ysgrifennydd y Cabinet i gwrdd â Gweithgor Cyngor Adnewyddu'r Economi i drafod rôl y Gweithgor yn y gwaith o ddatblygu blaenoriaethau economaidd;
  - b) Y Prif Weinidog i gwrdd â'r Gweithgor i drafod yr UE a Chyngor Adnewyddu'r Economi yn fwy cyffredinol;
  - c) Swyddogion i ddarparu rhagor o wybodaeth am gymorth i fasnachu'n rhyngwladol ac am ymgyrchoedd twristiaeth;
  - ch) Swyddogion i ddarparu nodyn ynghylch gweithgarwch Busnes Cymru yng nghyswllt gadael yr UE;
  - d) James Price i gwrdd â Robert Lloyd Griffiths ynglŷn â Busnes Cymru;
  - dd) Darparu gwybodaeth ddilynol am y Gronfa Twf a Ffyniant a'r Cynllun Hyder Busnes;
  - e) Rhoi ystyriaeth bellach i gynnal uwchgynhadledd ar y cyd â Llywodraeth y DU pan fydd trafodaethau wedi datblygu ynghylch setliad ariannol;
  - f) Gwaith yn ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus, ar yr adeg briodol, ynghylch yr agweddau y cytunwyd â nhw;

- ff) O safbwynt caffael, swyddogion i ddarparu papur i'r Cyngor ynghylch 'Swyddi Gwell yn nes at Adref';
- g) Cynnal cyfarfod nesaf Cyngor Adnewyddu'r Economi tua diwedd mis Medi a chynnal cyfarfod o'r Gweithgor cyn hynny.

## **8. Diwedd**

- 8.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer canol mis Hydref ac y byddai cyfarfod nesaf y Gweithgor yn cael ei gynnal rhwng dechrau a chanol mis Medi. Roedd yn awyddus i'r Cyngor llawn gwrdd ym mis Medi.
- 8.2 Dywedodd y Prif Weinidog nad oedd unrhyw fusnes arall ac y byddai'r Cyngor llawn yn cwrdd cyn diwedd mis Medi.